

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Llywodraethwyr a Gwirfoddolwyr

Ysgol Gynradd Bro Ogwr

Mae YG Bro Ogwr yn ymrwymedig i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut yr ydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn ystod ac ar ôl eich perthynas waith gyda ni, yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (GDPR y DU).

Yn dilyn Brexit, mae Rheoliad (UE) 2016/679, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn gyfraith yr UE a ddargedwir ac fe'i hadwaenir fel GDPR y DU. Mae GDPR y DU yn eistedd ochr yn ochr â fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf Diogelu Data 2018 sy'n ymwneud â phrosesu data personol yn gyffredinol, pwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth a sancsiynau a gorfodaeth. Caiff y GDPR fel y mae'n parhau i fod yn berthnasol yn yr UE ei adnabod fel GDPR yr UE.

Mae'n berthnasol i lywodraethwyr a gwirfoddolwyr.

Pwy Sy'n Casglu'r Wybodaeth Hon

Mae YG Bro Ogwr yn "rheolydd data." Golyga hyn ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi.

Mae'n ofynnol dan ddeddfwriaeth diogelu data i ni eich hysbysu ynghylch yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract cyflogaeth na chontract arall i ddarparu gwasanaethau a gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn unrhyw bryd.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y gallwn ei ddarparu ar achlysuron penodol pan ydym yn casglu neu'n prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, fel eich bod yn ymwybodol sut yr ydym a pham ein bod yn defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Egwyddorion Diogelu Data

Byddwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol, fel a nodir yn ein polisi diogelu data.

Categoriâu'r Wybodaeth Yr Ydym Yn Ei Chasglu, Ei Phrosesu, Ei Dal A'i Rhannu

Gallwn gasglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn y categorïau canlynol: -

- Gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt megis enw, teitl, cyfeiriadau, dyddiad geni, statws priodasol, rhifau ffôn, a chyfeiriadau e-bost personol;
- Gwybodaeth gyswllt frys megis enwau, perthynas, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Manylion addysg;
- Manylion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- Manylion cyflogaeth;
- Gwybodaeth am fuddiannau busnes ac ariannol;
- Gwybodaeth a gafwyd fel rhan o'ch cais i ddod yn llywodraethwr;
- Gwybodaeth am eich cofnod troseddol fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'ch galluogi i weithio gyda phlant;
- Gwybodaeth am eich defnydd o systemau TG, cyfathrebu a systemau eraill, a gwybodaeth fonitro arall;

- Ffotograffau;
- Delweddau a gipiwyd gan system Teledu Cylch Cyfyng yr Ysgol; a
- Manylion mewn geirdaon amdanoch chi yr ydym yn eu rhoi i eraill.

Sut Yr Ydym Yn Casglu'r Wybodaeth Hon

Gallwn gasglu'r wybodaeth hon gennych chi'n uniongyrchol, gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan gyflogeion eraill a gweithwyr proffesiynol y gallwn ddefnyddio'u gwasanaeth, o systemau awtomataidd i fonitro ein gwefannau a systemau technegol eraill fel ein rhwydweithiau a chysylltiadau cyfrifiadurol, systemau Teledu Cylch Cyfyng a rheoli mynediad, systemau mynediad o bell, systemau e-bost a negeseua gwib, cyfleusterau mewnwyd a rhyngwyd.

Mae mwyafrif o'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu gennych chi'n orfodol; fodd bynnag ceir peth gwybodaeth y gallwch ddewis a ydych yn mynd i'w darparu ar ein cyfer ai peidio. Pryd bynnag yr ydym yn ceisio casglu gwybodaeth gennych, rydym yn ei gwneud yn glir a oes rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon (ac os felly, beth yw canlyniadau posibl peidio â chydymffurfio), ynteu a oes gennych ddewis.

Sut Yr Ydym Yn Defnyddio Eich Gwybodaeth

Dim ond pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn yr amgylchiadau canlynol: -

- Lle'r ydych wedi rhoi eich cydsyniad;
- Lle mae angen i ni gyflawni'r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo gyda chi;
- Lle mae angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac o dan godau ymarfer statudol);
- Lle mae angen hynny er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol;
- Lle mae'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys ni (neu rai trydydd parti) a lle nad yw eich buddiannau, eich hawliau a'ch rhyddid chi'n bwysicach na'r buddiannau hynny.

Mae arnom angen yr wybodaeth yn yr holl gategorïau yn y rhestr uchod yn bennaf i'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol ac i'n galluogi ni fel Ysgol i gyflawni ein gorchwyl cyhoeddus. Sylwer y gallwn brosesu eich gwybodaeth heb yn wybod i chi neu heb eich cydsyniad chi, lle mae hyn yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

Caiff y sefyllfaedd lle byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol eu rhestru isod: -

- I bennu penodiad ac addasrwydd fel llywodraethwr;
- I ymdrin ag ethol llywodraethwyr;
- I gydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu;
- I ddarparu manylion ar ein gwefan neu gronfeydd data ar-lein am lywodraethwyr;
- I gyfathrebu gyda thrydydd partion a rhanddeiliaid eraill yr Ysgol;
- At ddibenion rheoli a chynllunio busnes (gan gynnwys at ddibenion cyfrifyddu, cyllidebol ac iechyd a diogelwch);
- At ddibenion ariannol (megis treuliau);
- I ymdrin ag unrhyw gwynion/ymchwiliadau fel y bo'n ofynnol;

- Pan fyddwch yn eistedd ar banel neu bwyllgor, enw a sylwadau yn ogystal â phenderfyniadau a wnaed;
- I anfon cyfathrebiadau yn eich rôl fel llywodraethwr;
- I ateb gofynion o ran addysg, hyfforddi a datblygu;
- Er mwyn adolygu trefniadau llywodraethu'r Ysgol;
- Er mwyn cydymffurfio ag unrhyw anghydfod cyfreithiol neu rwymedigaethau cyfreithiol;
- Er mwyn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio neu rwymedigaethau iechyd a diogelwch;
- I sicrhau diogelwch systemau, gan gynnwys atal mynediad diawdurdod at ein rhwydweithiau;
- I fonitro defnydd o'n systemau i sicrhau y cydymffurfir â'n prosesau TG;
- I gael cyngor gan gynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol;
- I gynnal cyswllt â chyrff rheoleiddio (megis Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd); ac
- I ymdrin â therfynu eich penodiad.

Bydd rhai o'r rhesymau uchod dros brosesu yn gorgyffwrdd â'i gilydd a gall fod nifer o resymau sy'n cyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.

Os byddwch yn methu â darparu rhai mathau penodol o wybodaeth pan ofynnir i chi, efallai y byddwn yn cael ein hatal rhag cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol (megis sicrhau iechyd a diogelwch). Lle'r ydych wedi rhoi cydsyniad i ni ddefnyddio eich data, gallwch dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl unrhyw bryd.

Dim ond at y dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, oni bai ein bod yn rhesymol yn ystyried bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os oes angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben anghysylltiedig, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni wneud hynny.

Sut Yr Ydym Yn Defnyddio Gwybodaeth Arbennig O Sensitif

Gyda gwybodaeth bersonol sensitif (a ddiffinnir dan GDPR y DU fel "data categori arbennig") mae'n rhaid wrth lefelau uwch o ddiogelu a chyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math yma o wybodaeth bersonol. Gallwn brosesu'r data hwn yn yr amgylchiadau canlynol: -

- Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch cydsyniad ysgrifenedig penodol chi;
- Lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn unol â'n polisi diogelu data;
- Lle mae ei angen er budd y cyhoedd, megis i fonitro cyfle cyfartal (neu mewn perthynas â'n cynllun pensiwn);
- Lle mae ei angen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu lle mae ei angen i ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) a'ch bod chi ddim yn gallu rhoi eich cydsyniad.

Euogfarnau Troseddol

Dim ond lle mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y gallwn ddefnyddio gwybodaeth mewn perthynas ag euogfarnau troseddol. Bydd hyn fel arfer yn digwydd lle mae'n angenrheidiol i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol. Ni fyddwn ond yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol os yw'n briodol o ystyried natur y rôl a lle rydym yn gallu gwneud hynny'n gyfreithiol.

Lle y bo'n briodol byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu gallwn gael ein hysbysu ynghylch gwybodaeth o'r fath yn uniongyrchol gennych chi tra byddwch yn gweithio i ni.

Prosesau Penderfynu Awtomataidd

Mae prosesau penderfynu awtomataidd yn digwydd pan fo system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Caniateir i ni ddefnyddio prosesau penderfynu awtomataidd yn yr amgylchiadau canlynol: -

- Lle'r ydym wedi eich hysbysu ynghylch y penderfyniad ac wedi rhoi 21 diwrnod i chi ofyn i ni ailystyried;
- Lle mae'n angenrheidiol i gyflawni'r contract gyda chi ac y rhoddir mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau; neu
- Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol a lle rhoddir mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.

Ni wneir penderfyniadau amdanoch a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch yn seiliedig ar broses benderfynu awtomataidd yn unig, oni bai bod gennym sail gyfreithlon i wneud hynny a'n bod ni wedi eich hysbysu.

Rhannu Data

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data gyda thrydydd partïon, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau trydydd parti lle y bo'n ofynnol yn gyfreithiol, lle mae'n angenrheidiol i weinyddu'r berthynas weithio gyda chi neu lle mae gennym fuddiant dilys arall mewn gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: -

- Adrannau neu asiantaethau'r Llywodraeth
- Yr Awdurdod Lleol
- Cyflenwyr a Darparwyr Gwasanaethau
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Cyrff Rheoleiddio
- Yr Adran Addysg a Sgiliau
- Gorfodi'r gyfraith
- Gwasanaethau cymorth;
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer yr asiantaethau hynny mewn modd diogel neu'n cael ei chadw'n ddiennw lle y bo'n bosibl.

Bydd derbynnydd yr wybodaeth wedi'i rwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd; byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

Cyfnodau Cadw

Ac eithrio fel a ganiateir neu sy'n ofynnol fel arall gan gyfraith berthnasol neu reoliad perthnasol, mae'r Ysgol yn cadw data personol dim ond am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i ateb y dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer, am gyhyd ag sy'n ofynnol i fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd, neu am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i ddatrys anghydfodau.

I bennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, mae'r Ysgol yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd data personol, y risg bosibl o niwed pe bai data personol yn cael ei ddefnyddio neu ei ddatgelu mewn modd diawdurdod, y dibenion ar gyfer prosesu'r data

personol, pa un a allwn ateb y dibenion prosesu trwy ddulliau eraill ac unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

Unwaith y byddwch yn peidio â bod yn llywodraethwr neu'n wirfoddolwr i'r Ysgol mwyach, byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac yn ei difa'n ddiogel yn unol â pholisi cadw data CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Diogelwch

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch eich gwybodaeth (h.y. rhag ei cholli, ei defnyddio neu ei chyrchu ar ddamwain mewn ffordd ddiawdurdod). Hefyd, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill hynny y mae angen iddynt wybod o safbwynt busnes.

Dim ond yn ôl ein cyfarwyddiadau ni a lle maent wedi cytuno i drin gwybodaeth yn gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel y bydd trydydd partïon yn prosesu eich gwybodaeth bersonol.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achos tybiedig o dorri diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol ynghylch achos tybiedig o dorri diogelwch data lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Eich Hawliau O Ran Mynediad, Cywiro, Dileu A Chyfyngu

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch chi'n gywir ac yn gyfredol. Hysbyswch ni os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni os gwelwch yn dda.

O dan rai amgylchiadau yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i'r canlynol: -

- Cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (a adwaenir yn gyffredin fel "cais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn caniatáu i chi gael copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw eich cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais dan amgylchiadau o'r fath.
- Cael cywiro'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghywir yr ydym yn ei dal amdanoch yn cael ei chywiro.
- Dileu eich gwybodaeth bersonol. Gallwch ofyn i ni ddileu neu waredu data personol os nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu.
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol. Gallwch ofyn i ni atal gweithgarwch i brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch dan rai amgylchiadau, er enghraifft os oes arnoch eisiau i ni gadarnhau ei chywirdeb cyn ei phrosesu.
- Gwrthwynebu prosesu dan rai amgylchiadau (er enghraifft at ddibenion marchnata uniongyrchol).
- Trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os oes arnoch eisiau arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, cysylltwch â Mrs Sharon Jayne yn ysgrifenedig.

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych a sicrhau eich hawl i gael mynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw hawliau eraill sydd gennych). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu wrth unrhyw un sydd heb hawl i'w chael.

Hawl I Dynnu Cydsyniad Yn Ôl

Yn yr amgylchiadau cyfyngedig lle'r ydych o bosibl wedi rhoi eich cydsyniad i gasglu, prosesu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol at ddiben penodol, mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad ar gyfer prosesu at y diben penodol hwnnw yn ôl unrhyw bryd. I dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â Mrs Sharon Jayne. Unwaith y byddwn wedi cael ein hysbysu eich bod wedi tynnu eich cydsyniad yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth mwyach at y diben neu'r dibenion y cytunoch chi ag ef neu â hwy'n wreiddiol, oni bai bod gennym sail ddilys arall dros wneud hynny mewn cyfraith.

Sut I Godi Pryder

Rydym yn gobeithio y gall Mrs Sharon Jayne ddatrys unrhyw ymholiad y byddwch yn ei godi ynghylch y modd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn y lle cyntaf.

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data (SDD) i oruchwylio'r modd y cydymffurfir â diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y modd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol na allant gael eu datrys gan Mrs Sharon Jayne, yna gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar y manylion isod: -

Swyddog Diogelu Data: Judicium Consulting Limited
Cyfeiriad: 72 Cannon Street, London, EC4N 6AE
E-bost: dataservices@judicium.com
Gwefan: www.judiciumeducation.co.uk
Cyswllt Arweiniol: Craig Stilwell

Mae gennych yr hawl i gyfleu cwyn unrhyw bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data.

Newidiadau I'r Hysbysiad Preifatrwydd Hwn

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn unrhyw bryd, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd ar eich cyfer pan fyddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol. Gallwn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd hefyd ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol.